

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS AM SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.


Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



**Craig Flannery**
Y Prif Swyddog Tân





## YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Foesegol
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiduedd

## GALLUOGI

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth




Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council

Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**

yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân

gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser

**702** Ar alwad

**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd

**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi’i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu’r holl rwystrau sy’n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy’n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella’r amgylchedd gwaith i’r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae’r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo’i hun sy’n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae’r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

# Proffil Swydd

Cyflog: £54,495 – 56,593

Mae'r Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn chwarae rôl arwain ganolog yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan helpu i ddiogelu a gwella enw da'r Gwasanaeth, cryfhau hyder y cyhoedd, a sicrhau cyfathrebu clir, cynhwysol ac effeithiol gyda staff, partneriaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r gwaith o ddylunio, cyflwyno a gwella Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn barhaus, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 a blaenoriaethau sefydliadol ehangach. Mae'r rôl yn darparu arweinyddiaeth o ddydd i ddydd ar draws cysylltiadau â'r cyfryngau, cyfathrebu digidol, cyfathrebu mewnol, gwasanaethau creadigol a chynnwys dwyieithog, gan sicrhau bod allbynnau o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn adlewyrchu gwerthoedd a gweledigaeth y Gwasanaeth.

Elfen allweddol o'r rôl yw cefnogi dyletswyddau statudol y Gwasanaeth o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sicrhau cydymffurfiaeth ymarferol a chyson â Safonau'r Gymraeg. Bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo ac yn helpu i ymgorffori diwylliant dwyieithog hyderus a chadarnhaol, gan sicrhau bod cyfathrebu, ymgyrchoedd a deunyddiau gweledol yn cynnal cydraddoldeb ieithyddol ac yn gwella hunaniaeth ddwyieithog y Gwasanaeth.

Bydd y Dirprwy Bennaeth hefyd yn arwain ac yn ysgogi aelodau'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol, gan gynnwys y swyddogaeth Dylunio Graffeg. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfeiriad creadigol, rheoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, meithrin datblygiad proffesiynol, a chynnal safonau uchel o ran uniondeb brand, cyfathrebu gweledol a hygyrchedd.

Mae'r rôl yn gofyn am weithiwr proffesiynol cyfathrebu rhagweithiol, gwleidyddol ymwybodol a threfnus iawn sy'n gallu gweithio'n gyflym, rheoli materion sensitif gyda disgresiwn, a rhoi cyngor cadarn, seiliedig ar dystiolaeth, i uwch arweinwyr. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithredu fel dirprwy arweinydd cyfathrebu yn ystod digwyddiadau mawr neu ddigwyddiadau parhad busnes, gan gefnogi partneriaid aml-asiantaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhybuddio a hysbysu.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i gyfathrebwr ac arweinydd medrus helpu i lunio sut mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â'i weithlu a'i gymunedau, gan gryfhau ymddiriedaeth, gwelededd a dealltwriaeth y cyhoedd o'n gwaith ar draws un o'r ardaloedd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn y DU.

**Y Person**
Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol radd berthnasol neu brofiad cyfatebol, gyda gwybodaeth gref o strategaethau cyfathrebu, brandio, ymgysylltu â budd-ddeiliaid, a materion cyhoeddus. Rhaid bod â phrofiad o arwain gwaith cyfathrebu mewn amgylchedd sector cyhoeddus, o reoli ymgyrchoedd, ac o gynnal cysylltiadau â'r cyfryngau a staff arweiniol, yn ogystal â sgiliau TG rhagorol, meddwl strategol, ac uniondeb proffesiynol uchel. Mae ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a gweledigaeth y Gwasanaeth yn hanfodol, yn ogystal â hyblygrwydd i weithio y tu allan i oriau arferol ac i deithio. Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol yn y rôl hon.

# Disgrifiad Swydd

**ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU** | **YN GYFRIFOL I**

| | |
|---|---|
| 1. Cefnogi'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol i gyflawni'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2040. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 2. Rhoi cyngor cyfathrebu strategol, moesegol a phragmatig i uwch arweinwyr a rhanddeiliaid mewnol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 3. Cyfrannu at sganio'r gorwel, gan nodi risgiau, cyfleoedd, tueddiadau ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg ar draws Sector Tân ac Achub y DU. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 4. Dirprwyo dros y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol pan fo angen, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd lefel strategol a gweithredol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 5. Arwain gweithgaredd cyfathrebu corfforaethol o ddydd i ddydd, gan sicrhau dull cydgysylltiedig ar draws y cyfryngau, llwyfannau digidol, ymgyrchoedd, a chyfathrebu mewnol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 6. Rheoli ymatebion i ymholiadau'r cyfryngau, datblygu perthnasoedd cryf â newyddiadurwyr a sicrhau negeseuon allanol cywir, amserol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 7. Goruchwylio cyflwyno cynnwys digidol o ansawdd uchel ar draws y wefan, y fewnrwyd a sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau arloesedd, hygyrchedd a ffocws ar ddefnyddwyr. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 8. Cefnogi cynllunio a chyflawni ymgyrchoedd ymgysylltu, negeseuon diogelwch y cyhoedd a mentrau newid ymddygiad. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 9. Gweithredu fel dirprwy arweinydd ar gyfer cyfathrebu digwyddiadau mawr, gan gynnwys cydlynu cyfathrebu aml-asiantaeth pan fydd GTACGC yn arweinydd dynodedig. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 10. Cefnogi rhaglenni cyfathrebu mewnol sy'n hyrwyddo ymgysylltu â staff, diwylliant sefydliadol ac ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r gwasanaeth. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| 11. Sicrhau bod negeseuon mewnol yn amserol, yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â gwerthoedd ac ymddygiadau'r Gwasanaeth. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 12. Cynghori arweinwyr ar ddulliau ymgysylltu â staff a chefnogi cyfathrebu traws-wasanaeth. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 13. Cefnogi'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol i gynnal safonau brand, cywair a hunaniaeth weledol ar draws pob allbwn. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 14. Rhoi arweinyddiaeth glir, rhagweithiol i'r tîm Dylunio Graffig, gan sicrhau bod yr holl allbynnau dylunio ar draws y Gwasanaeth yn broffesiynol, yn gyson yn weledol, yn ddwyieithog ac yn cyd-fynd â hunaniaeth brand y Gwasanaeth. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 15. Cydweithio â dylunwyr i ddatblygu ymgyrchoedd, deunyddiau diogelwch cyhoeddus, graffeg ddigidol, ffeithluniau, asedau printiedig a chynnwys gweledol sy'n cryfhau dealltwriaeth y cyhoedd, gwella ymgysylltu a chefnogi blaenoriaethau sefydliadol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 16. Goruchwylio cynllunio, blaenoriaethu a sicrhau ansawdd yr holl waith dylunio, gan sicrhau llifoedd gwaith effeithlon, dyddiadau cau realistig a dyrannu adnoddau effeithiol ar draws prosiectau niferus sy’n cystadlu â’i gilydd. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 17. Gweithredu fel llysgennad rhagweithiol ar gyfer dwyieithrwydd ar draws y Gwasanaeth, gan helpu i ymgorffori diwylliant dwyieithog cadarnhaol, cynhwysol a hyderus yn fewnol ac yn allanol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 18. Cefnogi'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg yn ymarferol a monitro parhaus. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 19. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob sianel gyfathrebu, gan hyrwyddo dewis ieithyddol i staff a'r cyhoedd a sicrhau bod yr holl ddeunyddiau, ymgyrchoedd a chynnwys digidol corfforaethol yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno'n ddwyieithog i'r safon uchaf. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| 20. Sicrhau bod prosesau cadarn a mecanweithiau sicrhau ansawdd ar waith fel bod cyfieithiadau, cynnwys dwyieithog a rhyngweithiadau gyda’r cwsmeriaid yn bodloni gofynion cyfreithiol ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Gwasanaeth i uniondeb iaith. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 21. Arwain a goruchwylio aelodau’r tîm o ddydd i ddydd, dyrannu tasgau, rheoli llwyth gwaith, a chefnogi datblygiad proffesiynol. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 22. Nodi bylchau sgiliau ac anghenion hyfforddi, gan gefnogi gwelliant parhaus a thwf proffesiynol ar draws y tîm. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 23. Meithrin amgylchedd tîm cadarnhaol, cydweithredol wedi'i seilio ar ymddiriedaeth, cynhwysiant a gwerthoedd y Gwasanaeth. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 24. Cefnogi'r Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol i ddatblygu cynlluniau busnes adrannol ac adrodd yn erbyn mesurau perfformiad. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 25. Cyfrannu at fonitro'r gyllideb, gan sicrhau defnydd cyfrifol ac effeithlon o adnoddau. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 26. Cynhyrchu adroddiadau, cyflwyniadau a diweddariadau ar gyfer pwyllgorau, grwpiau arweinyddiaeth a phartneriaid yn ôl yr angen. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 27. Hyrwyddo a gweithredu polisïau iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelwch gwybodaeth a diogelu'r Awdurdod. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 28. Sicrhau bod trefniadau parhad busnes cyfathrebu yn cael eu cynnal a'u profi. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| 29. Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy'n dod o fewn cwmpas y swydd. | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **GRADD** | 13 |
| **ADRAN** | Cyfathrebu Corfforaethol |
| **GWIRIAD DBS** | Safonol |

Sicrhewch eich bod yn rhoi sylw i bob un o'r gofynion canlynol ar eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio i lunio rhestr fer o ymgeiswyr. Dylech gynnwys tystiolaeth sy'n ei gwneud yn amlwg bod eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd yn bodloni gofynion yr holl feysydd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd neu gymhwyster proffesiynol mewn cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth, marchnata neu ddisgyblaeth gysylltiedig. | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Thystysgrifau** |
| | Hyfforddiant Rheoli ac Arweinyddiaeth | **Hanfodol*** | |
| | Sgiliau Cymraeg (Lefel 3) | Dymunol | |
| **Gwybodaeth** | Dealltwriaeth gadarn o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i berthnasedd i sefydliad mawr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys cymhwyso Safonau'r Gymraeg yn ymarferol a'u goblygiadau ar gyfer cyfathrebu, darparu gwasanaethau a diwylliant sefydliadol. | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Dealltwriaeth gadarn o gyfathrebu, strategaeth, cynllunio a gwerthuso ymgyrchoedd | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am gysylltiadau â'r cyfryngau, cyfathrebu digidol, brandio a chywair. | **Hanfodol*** | |
| | Dealltwriaeth o gyfathrebu gweledol, egwyddorion brandio, hygyrchedd mewn dylunio, a rôl asedau creadigol mewn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus. | **Hanfodol*** | |
| | Dealltwriaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn y sector cyhoeddus. | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am gyfrifoldebau rhybuddio a hysbysu mewn digwyddiadau mawr. | Dymunol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o ddarparu cyfathrebiadau corfforaethol mewn amgylchedd sector cyhoeddus neu wasanaethau brys<br><br>Rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau, gan gynnwys drafftio datganiadau ac ymdrin ag ymholiadau'r wasg<br><br>Profiad o greu cynnwys ar draws sianeli digidol a rheoli cyfryngau cymdeithasol ar raddfa fawr<br><br>Profiad o gyflawni cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â staff<br><br>Goruchwylio neu reoli staff<br><br>Profiad o gefnogi neu weithredu Safonau'r Gymraeg o fewn sefydliad, gan gynnwys cynllunio, cynhyrchu neu sicrhau deunyddiau dwyieithog.<br><br>Rheoli neu fonitro'r gyllideb<br><br>Profiad o gefnogi cyfathrebu digwyddiadau mawr neu weithio aml-asiantaeth | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Dymunol**<br><br>**Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol** | Ymrwymiad i weithio gan gadw at egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo a modelu diwylliant dwyieithog hyderus ar draws y Gwasanaeth a chefnogi cydweithwyr i ymgysylltu'n gadarnhaol â gofynion y Gymraeg.<br><br>Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Meddu ar sgiliau TG rhagorol, gallu deall a defnyddio systemau TG amgen, llwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol<br><br>Gallu asesu gwybodaeth gymhleth a manwl a'i chydgrynhoi mewn strategaethau, gyda barn a rhesymu cadarn.<br><br>Y gallu i weithio'n hyblyg a bodloni anghenion cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub deinamig<br><br>Dangos ymwybyddiaeth o faterion sy'n sensitif yn wleidyddol a materion sensitif a chyfrinachol eraill, ac ymateb iddynt; bod yn amyneddgar, yn ddoeth ac yn ddiplomyddol.<br><br>Lefel uchel o uniondeb a disgresiwn proffesiynol | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhoi cyngor/cyfarwyddyd effeithiol i arweinwyr Gweithredol o fewn sefydliad<br><br>Ymrwymiad i Gynllun, Gweledigaeth ac Ymddygiadau Rheoli Risg Cymunedol GTACGC<br><br>Gallu profi ymrwymiad i arferion cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a diogelu yn y gweithle | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ...Safon

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau:

Mae’r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae’n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi’r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio’r rhestr fer yn cynnwys asesu’r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau’r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu’r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o’r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i’r adran sy’n llunio’r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o’i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy’n llunio’r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe’ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i’r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i’r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i’w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o’r ddogfennaeth y mae’n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw’n berthnasol i’r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk